

Mesurau Diogelwch 01/03/22

Fel y gwyddoch, o 01/03/22, yr unig fynediad i Ysgol Glanrafon fydd drwy'r giât waelod.

Hoffwn gymeryd y cyfle i ddiolch i chi am gwblhau yr Holiadur Rhieni. Rhannwyd eich sylwadau gyda'r holl bartïon perthnasol.

Dros yr wythnosau diwethaf, rydym fel ysgol wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Cyngor a Streetscene a hoffem eich cyngori fel rhieni am yr hyn sydd wedi'i gytuno i gadw ein holl ddisgyblion, staff a rhieni yn ddiogel.

1) Bydd conau yn cael eu gosod ger yr un fynedfa/allanfa a ddefnyddir i atal rhieni rhag parcio'n rhy agos, a ddylai ei gwneud yn fwy diogel i ddisgyblion.

2) Gallwn gadarnhau bod Streetscene wedi cytuno i ddarparu trwyddedau parcio am gyfnod dros dro wrth i'r gwaith adeiladu fynd ymlaen. (Roedd hwn yn awgrym a nodwyd sawl gwaith gennyh chi fel rhieni ar ein Holiadur).

Pwyntiau pwysig :-

- Bydd y drwydded yn dechrau o 01/03/22.
- Un trwydded ar gyfer teulu/car.
- Bydd y drwydded yn ddilys tan 31 Mawrth 2022;
- Rhodddir y drwydded hawl i chi barcio yn Maes Parcio Stryd Newydd (New Street Car Park) yn unig;
- Mae'r hawl i barcio yno yn ddilys rhwng 8:00am – 9:00am a 2:30pm – 3:30pm, dydd Llun - dydd Gwener;
- Rhaid i'r trwyddedau fod wedi'u harddangos yn glir ac yn weladwy i Swyddogion Parcio y Sir;
- Mae'r holl delerau ac amodau parcio eraill yn berthnasol.
- Bydd rhagor o wybodaeth am sut i gael y drwydded barcio yn cael ei chyhoeddi dros y dyddiau nesaf.

Cofiwch mai trefniadau dros dro yw'r rhain a bod angen i ni gyd weithio gyda'n gilydd er diogelwch ein disgyblion

Safety Measures 01/03/22

As you are aware, from 01/03/22, the only access to Ysgol Glanrafon will be through the bottom gate.

We would like to take the opportunity to thank so many of you for completing the questionnaire regarding safety concerns. Your comments were shared with all relevant parties.

Over the past few weeks, we as a school have been working closely with the Council and Streetscene and we would like to advise you as parents what has been agreed to keep all of our pupils, staff and parents safe.

- 1) Cones will be placed near to the one entrance/exit that will be in use to help prevent parents from parking too close, which should make it safer for pupils.
- 2) We can confirm that Streetscene have agreed to provide parking permits for the duration of the works. (This was a suggestion that was noted several times from you as parents on our Questionnaire).

Important points :-

- The permit will begin from 01/03/22.
- One permit will be issued per family/car.
- The permit will be valid until 31 March 2022;
- The permit is for **New Street Car Park only**;
- The permit is valid between 8:00am – 9:00am and 2:30pm – 3:30pm, Monday - Friday;
- The permits must be **clearly displayed** and **visible** to an Enforcement Officer;
- All other parking terms and conditions apply.
- More information on how to obtain the parking permit will be issued over the next coming days.

Please remember that these are temporary arrangements and that we all need need to work together for the safety of our pupils.